Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru
North Wales Regional Skills Partnership



# Strategaeth Sgiliau Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam

## 2025 - 2035

## Dogfen Grynhoi

## Beth yw'r ddogfen hon?

Dyma'r Strategaeth Sgiliau ar gyfer Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam, sy'n nodi sut fydd sgiliau a hyfforddiant yn cefnogi swyddi newydd, twf busnes a buddsoddi mewnol dros oes y Rhaglen Parth Buddsoddi. Mae'n darparu fframwaith buddsoddi i alinio cyflogwyr, darparwyr addysg a hyfforddiant, a phartneriaid sector cyhoeddus dros y 10 mlynedd nesaf.

## Beth yw'r Parth Buddsoddi?

Mae Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam yn canolbwyntio ar dyfu gweithgynhyrchu uwch, diwydiannau sy'n cael eu gyrru gan arloesedd a chadwyni cyflenwi lleol. Wrth gael ei alluogi gan fuddsoddiadau mewn cyfleusterau modern ac unigolion medrus ledled Sir y Fflint a Wrecsam, bydd y Parth Buddsoddi yn:

**Denu busnesau newydd**

**Creu swyddi o ansawdd uchel**

**Cryfhau diwydiant lleol**


## Pam fod hyn yn bwysig?

Gellir crynhoi pwysigrwydd Parth Buddsoddi i Sir y Fflint a Wrecsam fel cyfle i hybu twf, cynhwysiad a gwella clystyrau economaidd presennol.

- Mae un o'r clystyrau gweithgynhyrchu uwch cryfaf yng Nghymru i'w gael yn Sir y Fflint a Wrecsam, sy'n cyflogi 19,000 o bobl.
- Mae'r sector yn wynebu cyfleoedd mawr drwy dechnolegau newydd, ond hefyd risgiau o gwmpas gweithlu sy'n heneiddio, bylchau sgiliau a pharodrwydd y gweithlu yn y dyfodol.
- Mae angen dull cynhwysol i ehangu mynediad, denu grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli, a datblygu cyfleoedd gyrfa lleol.

## Pam paratoi strategaeth?

Rôl strategaeth yw siapio'r penderfyniadau sy'n cael eu gwneud drwy sicrhau bod mynediad at gyfleoedd yn cael ei ymestyn a bod anghenion busnesau yn cael eu bodloni. Yn benodol, mae'r strategaeth hon yn ceisio:



## Beth mae'r dystiolaeth yn ei ddweud?



### Cryfderau

Cynnig AB ac AU presennol cryf, dan arweiniad Coleg Cambria a Phrifysgol Wrecsam

Rhwydwaith o angorau busnes presennol

Cyfleoedd i gydweithio ar draws y ffin



### Pobl Ifanc

Eisiau llwybrau gyrfa cliriach

Angen gwell mynediad at wybodaeth

Byddant yn elwa o fod yn fwy parod am waith a chysylltiadau trafnidiaeth lleol



### Y Gymuned Fusnes

Yn wynebu prinder sgiliau ar hyn o bryd

Angen recriwtio pobl sy'n barod ar gyfer gwaith

Yn pwysleisio cyd-bwysigrwydd sgiliau technegol, meddal a throsglwyddadwy



### Prif Heriau

Gweithlu sy'n heneiddio

Bylchau mewn STEM

Methu cadw graddedigion

Merched a grwpiau lleiafrifol yn dal i gael eu tangynrychioli

## Beth ddylem ni wneud am hyn?

Bydd rhaglen sgiliau'r Parth Buddsoddi yn canolbwyntio ar y themâu a'r ardaloedd craidd isod, sy'n ymestyn dros bob cam o'r llwybr cyflogaeth y sectorau.

| Thema Ymyrraeth | Ardaloedd Ymyrraeth |
|---|---|
| **STEM ac ymgysylltu gydag ysgolion** | • Ymgysylltu gyrfaoedd<br>• Codi ymwybyddiaeth o gyfleoedd lleol<br>• Ehangu llwybrau STEM<br>• Ymgysylltu Cyn-16 |
| **Cefnogaeth i ddysgwyr 16-18 oed** | • Ymestyn prentisiaethau<br>• Lleoliadau gwaith<br>• Darparu mentrau i gyflogwyr |
| **Cyflogwyr yn arwain ar gyd-ddylunio'r cwricwlwm** | • Integreiddio'r Parth Buddsoddi yn y cwricwlwm<br>• Alinio'r ddarpariaeth hyfforddiant gydag anghenion y sector |
| **Llwybrau 18+** | • Ymestyn prentisiaethau gradd<br>• Creu llwybrau MSc/PhD newydd<br>• Cyflwyno bŵtcamps sgiliau a micro-credentials eraill |
| **Uwchsgilio ac ailsgilio** | • Ailhyfforddi ar gyfer trosglwyddiadau gyrfa<br>• Cefnogi dysgu gydol oes, a seiliedig ar waith |
| **Seilwaith a hygyrchedd** | • Gwella trafnidiaeth i wella mynediad at gyfleoedd<br>• Datblygu cyfleusterau hyfforddi<br>• Ymestyn Porth Sgiliau GC (sydd eisoes wedi'i sefydlu) |
| **Cynhwysiant ac amrywiaeth** | • Targeted engagement to boost participation amongst women, minority groups, SEND learners, care leavers and others |

## Sut fydd hynny'n digwydd?

Bydd llywodraethiant effeithiol rhaglen sgiliau'r Parth Buddsoddi yn cael ei gydlynu gan Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru, a Grŵp Llywio Sgiliau'r Parth Buddsoddi fydd yn arwain ar gyflawni hyn. O ystyried natur hirdymor y rhaglen Parth Buddsoddi a'r ansicrwydd o gwmpas union amseriad y buddsoddi mewnol yn y dyfodol, rhaid i'r rhaglen sgiliau barhau i fod yn ystwyth ac yn ymatebol, ac felly bydd yn cael ei siapio gan Gynlluniau Cyflawni Blynyddol i adnabod blaenoriaethau, hysbysu dyraniadau adnoddau a dylunio gweithgareddau monitro.

Tra bydd manylion penodol cyflwyniad y rhaglen yn cael ei gadarnhau yn flynyddol, rhagwelir y bydd cyflwyno'r rhaglen sgiliau mewn camau yn cael ei strwythuro'n fras o amgylch y tri trothwy allweddol yma:

**Tymor Byr (Blynyddoedd 1 i 3)**

Bydd y blaenoriaethau cyflawni cynnar ar ôl lansio'r rhaglen sgiliau yn cynnwys:

- Hyrwyddo ymgysylltiad STEM mewn ysgolion
- Darparu gyrfaoedd a chefnogaeth wedi'i chydlynu
- Cymhellion prentisiaethau cychwynnol

**Tymor Canolig (Blynyddoedd 4 i 6)**

I gefnogi cynnydd yn y gweithgarwch, bydd y cam hwn yn canolbwyntio ar:

- Cyflogwyr yn arwain ar gyd-ddylunio'r cwricwlwm gyda Medr
- Cyflwyno uwch brentisiaethau a phrentisiaethau gradd
- Ymestyn sgiliau a darpariaeth hyfforddiant y sector yn gyffredinol

**Hirdymor (Blynyddoedd 7 i 10)**

I atgyfnerthu'r aliniad gyda'r Parth Buddsoddi aeddfed, bydd y pwyslais ar:

- Targedu'r uwchsgilio a'r ailsgilio i gefnogi trosglwyddiadau gyrfa
- Integreiddio'r sgiliau arloesi yn ddyfnach
- Blaenoriaethu cynhwysiad a throsglwyddo gwybodaeth i sicrhau gwaddol y rhaglen.

Wrth gyflawni, mae'n bwysig ymgysylltu â Medr[1] a Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn benodol wir o ystyried cylch gwaith strategol Medr o ran addysg drydyddol, gwaith ymchwil ac arloesedd ac ymateb i anghenion cyflogwyr.

## Beth yw'r camau nesaf?

Drwy gadw ymrwymiad cryf tuag at gydweithio, ymarfer sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a chynhwysedd, bydd Parth Buddsoddi Sir y Fflint a Wrecsam mewn lle da i greu gweithlu gwydn a medrus fydd yn gallu llywio ffyniant rhanbarthol hirdymor. Mae'r camau nesaf yn cynnwys:

- Sefydlu a defnyddio Grŵp Llywio Sgiliau y Parth Buddsoddi ar fyrder, fel bod modd lansio'r rhaglen sgiliau.
- Cytuno ar gyd-ddeilliannau ac egwyddorion buddsoddi ar gyfer ymyraethau sgiliau yn y dyfodol.
- Datblygu cynlluniau gweithredu am ymyraethau sy'n rhoi amlinelliad o brosiectau, allbynnau a deilliannau.
- Parhau i gryfhau'r ymgysylltiad a'r cyfathrebu â rhanddeiliaid, gan gynnwys y gymuned fusnes.

---

1 Mae Medr yn gorff lled braich o Lywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am gyllido a rheoleiddio'r sector addysg drydyddol a gwaith ymchwil yng Nghymru. https://www.medr.cymru/en/



AM RAGOR O WYBODAETH

info@rspnorth.wales

Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru
North Wales Regional Skills Partnership

AMION CONSULTING